



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2015 Rhif 1495 (Cy. 167)**

**2015 No. 1495 (W. 167)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE, WALES**

Rheoliadau Gofal a Chymorth  
(Trefniadau Partneriaeth ar gyfer  
Asesiadau Poblogaeth) (Cymru)  
2015

The Care and Support (Partnership  
Arrangements for Population  
Assessments) (Wales) Regulations  
2015

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae adran 166 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyfuniad o awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ymrwymo i drefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni swyddogaethau penodedig.

Section 166 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (“the Act”) enables Welsh Ministers to make regulations requiring a combination of local authorities and Local Health Boards to enter into partnership arrangements for carrying out specified functions.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol ymrwymo i drefniadau partneriaeth er mwyn cyflawni eu swyddogaethau o dan adran 14 o'r Ddeddf. Mae'r swyddogaethau hyn yn ymwneud â'r asesiad o anghenion pobl mewn ardal awdurdod lleol, gan gynnwys anghenion gofalywyr (asesiad y cyfeirir ato yn y rheoliadau fel “asesiad poblogaeth”). Rhaid i asesiad poblogaeth gynnwys hefyd asesiad o ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion y bobl yn ardal yr awdurdod lleol ac ystod a lefel y gwasanaethau ataliol y mae eu hangen.

These Regulations require Local Health Boards and local authorities to enter into partnership arrangements for the purpose of carrying out their functions under section 14 of the Act. These functions relate to the assessment of the needs of people in a local authority's area, including the needs of carers (referred to in the regulations as a “population assessment”). A population assessment must also include an assessment of the range and level of services required to meet the needs of the people in the local authority's area and the range and level of preventative services required.

Mae rheoliad 2 yn pennu'r cyrff (y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau fel “cyrff partneriaeth”) y mae'n rhaid iddynt ymrwymo i drefniant partneriaeth at y diben hwn. Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol a'r awdurdod neu'r awdurdodau lleol yn ardal pob Bwrdd Iechyd Lleol ymrwymo i drefniadau partneriaeth, fel y'i disgrifir yn yr Atodlen.

Regulation 2 specifies the bodies (referred to in the regulations as “partnership bodies”) that must enter into a partnership arrangement for this purpose. Partnership arrangements must be entered into by each Local Health Board and the local authority or authorities within the area of each Local Health Board, as described in the Schedule.

Mae rheoliad 3 yn pennu'r swyddogaethau sydd i'w cyflawni'n unol â'r trefniadau partneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y swyddogaethau a ddisgrifir yn adran 14 o'r Ddeddf ac unrhyw swyddogaeth a ddisgrifir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 14(1) (gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015).

Mae rheoliadau 4 a 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ffurf y trefniant partneriaeth a dull gweithredu'r trefniant partneriaeth, gan gynnwys penodi corff cydgysylltu arweiniol.

Mae rheoliad 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng y cyrff partneriaeth.

Mae rheoliad 7 yn galluogi'r corff cydgysylltu arweiniol i gyflwyno i Weinidogion Cymru gopi a'r adroddiadau asesiad poblogaeth sydd wedi eu llunio ar gyfer ardaloedd pob un o'r awdurdodau lleol yn y trefniant partneriaeth.

Regulation 3 specifies the functions which are to be carried out in accordance with the partnership arrangements. These include the functions described in section 14 of the Act and any function described in regulations made under section 14(1) (see the Care and Support (Population Assessments) (Wales) Regulations 2015).

Regulations 4 and 5 make provision for the form of the partnership arrangement and the operation of the partnership arrangement, including the appointment of a lead co-ordinating body.

Regulation 6 makes provision for information sharing between the partnership bodies.

Regulation 7 enables the lead co-ordinating body to submit to the Welsh Ministers a copy of the population assessment reports which have been produced for the areas of each of the local authorities in the partnership arrangement.

**2015 Rhif 1495 (Cy. 167)**

**2015 No. 1495 (W. 167)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE, WALES**

Rheoliadau Gofal a Chymorth  
(Trefniadau Partneriaeth ar gyfer  
Asesiadau Poblogaeth) (Cymru)  
2015

The Care and Support (Partnership  
Arrangements for Population  
Assessments) (Wales) Regulations  
2015

*Gwnaed* 8 Gorffennaf 2015  
*Yn dod i rym* 6 Ebrill 2016

*Made* 8 July 2015  
*Coming into force* 6 April 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 166(1), (3) a (4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 166(1)(3) and (4) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (1), make the following Regulations.

Cafodd drafft o'r Rheoliadau hyn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf honno a'i gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

A draft of these Regulations was laid before the National Assembly for Wales under section 196(6) of that Act and has been approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**Title, commencement, application and interpretation**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015.

1.—(1) The title of these Regulations is the Care and Support (Partnership Arrangements for Population Assessments) (Wales) Regulations 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations come into force on 6 April 2016 and apply in relation to Wales.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(3) In these Regulations—

ystyr “asesiad poblogaeth” (“*population assessment*”) yw'r asesiad y mae'n ofynnol ei gynnal o dan adran 14(1) o'r Ddeddf;

“partnership arrangement” (“*trefniant partneriaeth*”) means the partnership arrangement which is required to be made by regulation 2;

“y cyrff partneriaeth” (“*the partnership bodies*”) yw'r cyrff hynny y mae rheoliad 2 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymrwymo i drefniadau partneriaeth;

“population assessment” (“*asesiad poblogaeth*”) means the assessment which is required to be carried out under section 14(1) of the Act;

---

(1) 2014 dccc 4.

---

(1) 2014 anaw 4.

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr “swyddogaethau penodedig” (“*specified functions*”) yw’r swyddogaethau a bennir yn rheoliad 3;

ystyr “trefniant partneriaeth” (“*partnership arrangement*”) yw’r trefniant partneriaeth y mae’n ofynnol ei wneud gan reoliad 2.

“specified functions” (“*swyddogaethau penodedig*”) means the functions specified in regulation 3;

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;

“the partnership bodies” (“*y cyrff partneriaeth*”) are those bodies which are required by regulation 2 to enter into partnership arrangements.

### **Trefniadau partneriaeth**

2. Rhaid i drefniant partneriaeth ar gyfer cyflawni’r swyddogaethau penodedig gael ei wneud gan y Byrddau Iechyd Lleol a restrir yng nghlofn gyntaf y tabl yn yr Atodlen a’r awdurdod lleol neu’r awdurdodau lleol cyfatebol a restrir yn ail glofn y tabl hwnnw.

### **Swyddogaethau penodedig**

3. Y swyddogaethau sydd i’w cyflawni’n unol â’r trefniadau partneriaeth yw swyddogaethau’r cyrff partneriaeth a roddir iddynt gan neu o dan adran 14(1) o’r Ddeddf.

### **Y ffurf ar drefniadau partneriaeth**

4. Rhaid i’r cyrff partneriaeth sefydlu cydbwyllgor i ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros reoli’r trefniant partneriaeth.

### **Gweithredu trefniadau partneriaeth**

5.—(1) Rhaid i’r cyrff partneriaeth ar gyfer pob trefniant partneriaeth benodi un o’r cyrff i fod yn gorff cydgysylltu arweiniol.

(2) Mae’r corff cydgysylltu arweiniol i fod yn gyfrifol am gydgysylltu’r broses o gyflawni’r asesiadau poblogaeth ar gyfer yr ardaloedd awdurdod lleol y mae’r trefniant partneriaeth yn eu cwmpasu.

### **Rhannu gwybodaeth**

6. Caiff y cyrff partneriaeth rannu gwybodaeth â’i gilydd at ddibenion cyflawni swyddogaethau yn unol â’r trefniant partneriaeth.

### **Partnership arrangements**

2. A partnership arrangement for carrying out the specified functions must be made by the Local Health Boards listed in the first column of the table in the Schedule and the corresponding local authority or local authorities listed in the second column of that table.

### **Specified functions**

3. The functions to be carried out in accordance with the partnership arrangements are the functions of the partnership bodies conferred on them by or under section 14(1) of the Act.

### **Form of partnership arrangements**

4. The partnership bodies must establish a joint committee to take responsibility for the management of the partnership arrangement.

### **Operation of partnership arrangements**

5.—(1) The partnership bodies for each partnership arrangement must appoint one of the bodies to be the lead co-ordinating body.

(2) The lead co-ordinating body is to be responsible for co-ordinating the carrying out of the population assessments for the local authority areas covered by the partnership arrangement.

### **Information sharing**

6. The partnership bodies may share information with each other for the purposes of carrying out functions in accordance with the partnership arrangement.

## Dirprwyo swyddogaethau

7. Caiff y corff cydgysylltu arweiniol gyflawni'r swyddogaethau sydd wedi eu rhoi i bob un o'r awdurdodau lleol yn y trefniant partneriaeth gan reoliad 6(4) o Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015(1).

## Delegation of functions

7. The lead co-ordinating body may carry out the functions which have been conferred on each of the local authorities in the partnership arrangement by regulation 6(4) of the Care and Support (Population Assessment) (Wales) Regulations 2015(1).

*Mark Drakeford*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru

8 Gorffennaf 2015

Minister for Health and Social Services, one of the  
Welsh Ministers

8 July 2015

## ATODLEN Rheoliad 2

### Trefniadau partneriaeth penodedig

## SCHEDULE Regulation 2

### Specified partnership arrangements

#### Tabl

##### Trefniadau partneriaeth

<i>Bwrdd Iechyd Lleol</i>	<i>Awdurdod Lleol</i>
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Cyngor Sir Fynwy Cyngor Dinas Casnewydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cyngor Sir y Fflint Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

#### Table

##### Partnership arrangements

<i>Local Health Board</i>	<i>Local Authority</i>
Aneurin Bevan University Health Board	Monmouthshire County Council Newport City Council Caerphilly County Borough Council Torfaen County Borough Council Blaenau Gwent County Borough Council
Betsi Cadwaladr University Health Board	Flintshire County Council Wrexham County Borough Council Isle of Anglesey County Council Gwynedd County Council Denbighshire County Council Conwy County Borough Council

(1) OS 2015/1367 (Cy. 135). Mae rheoliad 6(4) o Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno i Weinidogion Cymru gopi o'r adroddiad asesiad poblogaeth sydd wedi ei lunio ar gyfer ei ardal.

(1) SI 2015/1367 (W. 135). Regulation 6(4) of the Care and Support (Population Assessments) Regulations 2015 requires each local authority to submit to the Welsh Ministers a copy of the population assessment report which has been produced for its area.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Cyngor Dinas a Sir Caerdydd Cyngor Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Cyngor Sir Penfro Cyngor Sir Caerfyrddin Cyngor Sir Ceredigion
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Cyngor Dinas a Sir Abertawe Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Cyngor Sir Powys

Cardiff and Vale University Health Board	Cardiff City and County Council Vale of Glamorgan Council
Hywel Dda University Health Board	Pembrokeshire County Council Carmarthenshire County Council Ceredigion County Council
Abertawe Bro Morgannwg University Health Board	Swansea City and County Council Bridgend County Borough Council Neath Port Talbot County Borough Council
Cwm Taf University Health Board	Rhondda Cynon Taf County Borough Council Merthyr Tydfil County Borough Council
Powys Teaching Health Board	Powys County Council

©Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2015 Rhif 1495 (Cy. 167)**

**2015 No. 1495 (W. 167)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE, WALES**

Rheoliadau Gofal a Chymorth  
(Trefniadau Partneriaeth ar gyfer  
Aseidiadau Poblogaeth) (Cymru)  
2015

The Care and Support (Partnership  
Arrangements for Population  
Assessments) (Wales) Regulations  
2015

£6.00

W2371/07/15

ON

ISBN 978-0-348-11125-5



9 780348 111255